COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Ebrill 13eg, 2016 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Robert M. Jones (Cadeirydd), John Gwilym Jones (Is-gadeirydd), Thelma Cordingley, John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Alun Jones, Dylan Llwyd, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, William B. Williams, Cyng. John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

Catherine Ll. Morris, R. Phillip Roberts, Cyng. R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Cyng. John B. Hughes a oedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod yn unig – cydymdeimlwyd ag ef ar farwolaeth ei fam yr wythnos diwethaf.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fawrth 9fed, 2016 yn gywir.

Yn dilyn y ddwy eitem uchod, soniodd Cyng. John B. Hughes am yr isod, cyn gadael y cyfarfod:

i) **Tai Fforddiadwy Cornwall** – prisiau'r tai'n uwch na'r hyn a ddisgwylid; cysyllta swyddog o'r Grŵp Cynefin â'r Cyngor yn y dyfodol agos
ii) **Traeth Machroes** – trefnwyd cyfarfod safle i drafod y sefyllfa dros yr haf ar Fai 3ydd
iii) **ffyrdd yr ardal** – ailwynebu sawl un.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C16/0241/39/LL	Addasiadau i'r eiddo, gan gynnwys balconi, addasiadau i edrychiad blaen yr eiddo a newidiadau i'r adeilad allanol yn cynnwys gosod to brig llechi – Sandbuoys, 13 Stád Llwyn Onn, Aber-soch **– Cefnogir**
C16/0242/39/LL	Estyniadau ochr a blaen, ynghyd â ffenestri gromen a tho – Gwyndy, Cilan **– Cefnogir**
C16/0274/39/LL	Addasu rhan o'r eiddo i dŷ annedd – Roslyn, Lôn Roslyn, Aber-soch **– Cefnogir**

C16/0298/39/LL Adeiladu pwll nofio awyr agored, ystafell beiriannau i'r pwll nofio, ynghyd â strwythur cegin haf yn cynnwys popty 'pizza' a bbq a gwaith tirlunio – Blaen y Wawr, Lôn Engan, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd agosatrwydd corn simna'r popty at gymdogion – mae'n nes hyd yn oed nag at dŷ'r ymgeisydd ei hun! Gwelediad y gornel – amod pan ganiatawyd y tŷ...?**

[Derbyniwyd copi, er gwybodaeth, o ohebiaeth a anfonodd Cyng. Wyn Williams i'r Adran Briffyrdd yn gofyn a fyddai modd gohirio'r cais hwn oherwydd rhesymau tirlunio a diogelwch, ynghyd â chael cyfarfod safle.]

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus – Tyddyn Callod, Aber-soch**

i) Trefnwyd glanhau tu allan i'r toiledau yn achlysurol – edrycha'n flêr ar adegau, yn arbennig pan fo dail yn disgyn.

ii) Derbyniwyd anfoneb am £45.28 oddi wrth npower – angen ei wirio, gan ei fod bron yn union yr un swm â thaliad olaf Business Gas a chredydwyd y cyfrif â £50.00 wrth drosglwyddo i npower.

b) **Gwefan y Cyngor**

Nid yw'r wefan yn fyw – angen creu'r ochr Saesneg, yn ogystal ag anfon mwy o luniau a chyfieithu ychydig o'r ddogfennaeth.

c) **Glanhau Afon Soch**

Ymwelwyd â chyfreithiwr y Cyngor i drafod y mater a chytuna â'r safbwynt bod rhaid cael gwybod yn union ble bu'r gweithiwr cyn talu anfoneb Roberts Ffestiniog. Cysylltwyd â Swyddfa NFU i ofyn a fyddai modd benthyg unrhyw ddogfennaeth o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar ddechrau'r trafodaethau – cafwyd y ffeil (a oedd ar fin cael ei gwaredu, gan fod y mater wedi cau). Cysylltir â Roberts Ffestiniog eto.

ch) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/'Harbour Mews Development'/Llwybr Estyllog at lan Afon Soch**

Anfonwyd llythyr ymddiheuro at AHNE Llŷn. Ni lwyddwyd trefnu cyfarfod safle rhwng pawb sy'n ymwneud â'r cynllun – gobeithir gwneud cyn cyfarfod mis Mai.

d) **Gohebiaeth aii) Un Llais Cymru (ULlC)**

Ni dderbyniwyd llythyr Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr yn ymateb i'r gŵyn.

dd) **Cyfreithwyr Gamlins – Cae Chwarae Aber-soch**

Ni dderbyniwyd copi o'r datganiad newydd i'w gyflwyno i'r Gofrestrfa Tir ar gyfer 20 Maes Awel.

e) **Wicksteed Playgrounds – Arolwg Diogelwch Blynyddol**

Ni chafwyd cyfle i anfon lluniau at Cae Chwarae Aber-soch hyd yma ac ni osodwyd y darnau ar yr offer – angen dau bâr o ddwylo.

f) **Cefnogaeth Gorfforol – Her Gwynedd**

Mynychodd y Cadeirydd a'r Clerc y cyfarfod i drafod yr uchod ym Mhlas Heli, Pwllheli; mynegwyd mai gwastraff amser ydoedd, gan na phenderfynwyd yn derfynol ar yr un o'r toriadau – adolygir rhai ohonynt, gan gynnwys dyfodol Neuadd Dwyfor, Pwllheli, eto.

ff) **Cyng. Wyn Williams – Is-ddeddf Masnachu ar y Stryd**
Derbyniwyd ateb oddi wrth Geraint Brython Edwards, Cyfreithiwr, yn diolch am gopi o gofnodion Medi 15fed, 2004 ac y cysyllta pan ddaw o hyd i gopi o'r Is-ddeddfau.

g) **8. Awgrymiadau'r Is-bwyllgor Ariannol**
Derbyniwyd llythyrau diolch oddi wrth bawb a ffurflen archebu tocynnau ar gyfer Eisteddfod Llangollen – fe'i trosglwyddwyd i'r Is-gadeirydd.

ng) **9. Gohebiaeth a) Un Llais Cymru (ULlC)** ***viii) Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor***
Mynychodd y Clerc y cyfarfod a chafwyd trafodaethau buddiol o ran toriadau ariannol Cyngor Gwynedd a'r drefn newydd o archwilio cyfrifon gan y cwmni newydd.

h) **9. Gohebiaeth ff) Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn – Cofrestr Newidiadau â Ffocws i'r Cynllun Adnau**
i) Anfonwyd sylwadau ar yr uchod.
ii) Derbyniwyd gohebiaeth yn cadarnhau y cofrestrwyd sylwadau'r Cyngor hwn ar y Cynllun Adnau fel rhai a wnaed yn briodol ac y cyflwynwyd Fersiwn Adnau ohono, ynghyd â'r Gofrestr o Newidiadau â Ffocws a'r dogfennau cysylltiedig i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer Archwiliad Cyhoeddus.

i) **9. Gohebiaeth h) Cyng. Selwyn Griffiths – Swyddfa Treth Incwm Tŷ Moelwyn, Porthmadog**
Anfonwyd llythyr i wrthwynebu cau'r uchod.

l) **9. Gohebiaeth ch) Cymorth Cynllunio Cymru – Digwyddiadau Hyfforddiant ar Gynllunio yn Eich Ardal**
i) Ni archebwyd lle ar yr hyfforddiant i Glercod Cynghorau Cymuned a Thref yn Yr Institiwt, Cyngor Tref Caernarfon ar Fai 23ain eto.
ii) Derbyniwyd manylion cwrs a gynhelir yn Neuadd y Dref Biwmares, nos Fawrth, Ebrill 26ain ar gyflwyniad cyffredinol i gynllunio – neb am ei fynychu.

5. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Dymchwel Tai yn Aber-soch**
Anfonwyd llythyr i'r Adran Gynllunio ac at Aelodau Seneddol a'r Cynulliad yn dilyn mynegi pryder am yr uchod. Anfonwyd llythyr at Gareth a Mary Parry ac Anna E. Jones i'w hysbysu o'r hyn a benderfynwyd.

6. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Biniau Halen**
Ni ddaethpwyd i benderfyniad â'r rhain.

b) **Dŵr Cymru – Dŵr a Charthffosiaeth yn dod o 'fanol' ger Bryncelyn Isaf, Cilan, a Than-y-Bryn, Sarn Bach**

Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach am yr uchod er yr addawyd gwneud cyn diwedd mis Mawrth.

c) **Golau Stryd ar Lôn Hawen, Aber-soch**
Derbyniwyd ateb oddi wrth Emyr Williams o'r Adran Goleuo Stryd, a noda nad oes cyflenwad trydan yn rhedeg yn y pafin. O ganlyniad, golygai creu ffos tua 50m o'r golofn agosaf o Lôn Sarn Bach – bwriada ymweld â'r safle a chael amcanbris cyn gynted â phosibl.

ch) **Karen Duggan, Clerc Cyfreithiol – Ail Rybudd Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ffordd Ddi-ddosbarth ger Tyddyn Llan, Llanengan) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2016**
Copi, er gwybodaeth, o'r uchod a ddaeth i rym ar Fawrth 16eg ac y pery am dri mis ond, disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith o fewn tua diwrnod.

d) **Lôn Gwydryn, Aber-soch**
Cwblhawyd tacluso'r palmentydd erbyn hyn.

dd) **Lloches Bws Nanhoron**
Gohebiaeth oddi wrth Ifan Lloyd Evans, Technegydd Cludiant Gweithredol, yn dilyn gwneud asesiadau risg ar lochesi bws yng Ngwynedd. O ganlyniad, sylwyd, yn ôl y matrics asesu risg, fod yr uchod yn berygl oherwydd fod y fynedfa'n isel...! Awgryma y dylid gosod arwydd 'Mynedfa Isel' tu allan, gan yr ystyrir anaf i'r pen fel risg ddifrifol; penderfynwyd cydsynio â'r awgrym.

7. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

Ni dderbyniwyd ateb pellach oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, na Seimon Jones parthed yr isod:

a) ***Shanty, Pen Bennar***
b) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***
c) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
ch) ***Torri'r Llwybrau***
d) ***Un Llais Cymru (ULlC) –*** i) ***Ramblers Cymru – Ydych chi eisiau gwarchod a gwella'r mannau lle mae pobl yn cerdded yn eich ardal chi?***
dd) ***Giât Fochyn yn Riffli (Llwybr 12)***
e) ***Taith Gerdded Ddigidol***
f) ***Llwybr yr Arfordir*** – adroddwyd fod rhannau ohono ger y Nant yn wlyb iawn –

hysbysir yr Adran.

8. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC) –** ***LansioFframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd***
Fe'i cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru er gwybodaeth.

b) **Llywodraeth Cymru –** ***Cyfoeth Naturiol – Cylchlythyr Rhif 6 – Ebrill 2016***
Copi, er gwybodaeth, sy'n cynnwys diweddariad ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

c) **Archwiliad Cyfrifon 2015 – 2016**

i) SLCC – Cyfarfod Cangen

Copi o gofnodion yr uchod (methodd y Clerc â'i fynychu oherwydd annwyd), ynghyd â'r ddogfennaeth a ddosbarthwyd ar y noson gan gynrychiolwyr y cwmni newydd sy'n archwilio eleni, sef BDO o Southampton...!

ii) John D. Roberts, Archwiliwr Mewnol – Archwilio Cyfrifon 2015 – 2016

Llythyr oddi wrth yr uchod yn nodi ei amserlen i archwilio'r cyfrifon yn Swyddfeydd Dwyfor, Pwllheli – Mai 23ain, 25-26ain – ac y bydd angen cynnal Cyfarfod Arbennig i'w cadarnhau a'u cyflwyno cyn y dyddiad penodedig.

iii) Archwilydd Cyffredinol Cymru – Hysbysiad Rhybudd Archwiliad

Derbyniwyd yr ohebiaeth heddiw ond, ni chafwyd cyfle i'w darllen yn iawn cyn cyfarfod heno.

ch) **Swyddog Adfywio Dwyfor – Cynllun Gweithredu Aber-soch**

Copi o'r uchod wedi'i ddiweddaru cyn ei anfon at Sioned Williams am sylwadau pellach cyn cylchredeg y cynllun.

d) **Adran Rheoleiddio – Deddf Trwyddedu 2003 – Cais am Drwydded Eiddo – Crust, Uned 2, Yr Harbwr, Aber-soch**

Copi o'r uchod – angen sylwadau erbyn Ebrill 15fed – dim gwrthwynebiad.

dd) **Nicholas Alderton – FOI**

Ymholiad oddi wrth yr uchod, myfyriwr ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd, ar faint o arian y bwriada'r Cyngor ei wario ar ddathliadau 90 oed y Frenhines; ni threfnir unrhyw ddigwyddiad.

e) **Came & Company – Newyddlen y Gwanwyn**

Copi, er gwybodaeth, o'r uchod.

f) **AON Affinity UK a Zurich Town and Parish Insurance**

Gohebiaeth oddi wrth y ddau gwmni uchod yn cynnig yswiriant i'r Cyngor.

9. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C15/1057/39/TC	Tystysgrif Cyfreithloni Defnydd i ddefnyddio hen fwthyn ac adeilad allanol at ddefnydd preswyl – Tŷ Mawr Cottage, Tŷ Mawr, Aber-soch **– Caniatawyd TC yn unig**
C15/1241/39/LL	Cais i gadw llwyfan bren yng nghefn yr eiddo – Nyth y Frân, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/1257/39/LL	Adeiladu dau dŷ deulawr – Tir ger Cesail y Coed, Llanengan **– Caniatawyd ag amodau**
C15/1329/39/LL	Atgyweirio a throsi hen adeilad amaethyddol yn uned wyliau, gan gynnwys estyniad bach i'r cefn a ffordd fynediad newydd – Murpoeth, Cilan – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0098/39/LL	Mynedfa newydd a chreu rhodfa i gerbydau – Tir ger Hendy, Aber-soch **– Gwrthodwyd**

C16/0106/39/LL	Dymchwel cwt glan môr presennol a chodi un newydd yn ei le a llwyfan cysylltiedig – Cwt Glan Môr 18, Borth Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0128/39/LL	Diddymu Amod 8 ar Ganiatâd Cynllunio 2/19/443A ac Amod 1 ar Ganiatâd Cynllunio 2/19/443B sydd yn cyfyngu meddiant o'r eiddo i berson lleol – Crud-yr-Ewyn, Sarn Bach – **Caniatawyd yn ddi-amodol**
C16/0137/39/LL	Estyniad unllawr blaen, estyniad deulawr ochr, newidiadau i'r porth ac addasiadau – Y Fras, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0164/39/LL	Modurdy ar wahân i'w leoli o flaen yr eiddo – Carrog, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

10. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Ebrill a chostau gweinyddol (Ionawr – Mawrth) y Clerc (Rh/S 001992 a 001988), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Datrys – £1041.48 (Rh/S 001985 – (Archwilio Tir Glan yr Afon)
b) Cyngor Gwynedd– £305.94 (Rh/S 001986 – Gwagio Biniau)
c) John D. Roberts – £65.00 (Rh/S 001987 – Archwilio Cyfrifon 2014 – 2015)
ch) Adran yr Urdd Mynytho/Pwyllgor Rhieni Ysgol Foel Gron – £100.00 (Rh/S 001989 yn lle 001954 – Cyfraniad)
d) Cyngor Gwynedd – £680.40 (Rh/S 001990 – Treth y Toiledau)
dd) Griffith, Williams & Co. – £89.44 (Rh/S 001991 – Gweinyddu Cyflog y Clerc)

Derbyniadau

a) Arian Mynediad y Toiledau – £152.65 (£32.20, £36.60 ac £83.85)
b) Mrs. Laura Goodman Jones – £16.00 (Rhent Cae'r Plwyf, Mynytho)

12. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF – CYFARFOD BLYNYDDOL**

Nos Fercher, Mai 11eg, 2016 am saith o'r gloch